## ATODLEN 1

Rheoliad 9

Y swyddogaethau sydd i'w cyflawni gan drefniadau partneriaeth

**Tabl 1**

**Swyddogaethau awdurdodau lleol**

| *Y swyddogaeth* |
| --- |
| **1.** Swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol sydd wedi eu cynnwys yn Atodlen 2 i'r Ddeddf, ac eithrio—<br>(a) y swyddogaethau yn Rhan 5 o'r Ddeddf (codi ffioedd),<br>(b) adran 144 o'r Ddeddf (cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol),<br>(c) adrannau 1 a 2 o Ddeddf Mabwysiadu 1976(**1**),<br>(d) adrannau 114 a 115 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983(**2**),<br>(e) Rhannau VII i X ac adran 86 o Ddeddf Plant 1989 |
| **2.** Swyddogaethau o dan adran 7 o Ddeddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986(**3**) |
| **3.** Swyddogaethau darparu cyfleusterau hamdden, neu sicrhau'r ddarpariaeth o gyfleusterau hamdden, o dan adran 19 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976(**4**) |
| **4.** Swyddogaethau awdurdodau tai lleol o dan Ran 1 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996(**5**); ac o dan Ran VI o Ddeddf Tai 1996(**6**) a Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014(**7**) |
| **5.** Swyddogaethau awdurdodau lleol o dan adran 126 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 |
| **6.** Swyddogaethau casglu gwastraff neu waredu gwastraff o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**8**) |
| **7.** Swyddogaethau darparu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o dan adrannau 180 a 181 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**9**) |
| **8.** Swyddogaethau awdurdodau priffyrdd lleol o dan Ddeddf Priffyrdd 1980(**10**) ac adran 39 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988(**11**) |
| **9.** Swyddogaethau o dan adran 63 (trafnidiaeth teithwyr) ac adran 93 (cynlluniau consesiynau teithio) o Ddeddf Trafnidiaeth 1985(**12**) |

(**1**) 1976 p. 36.
(**2**) 1983 p. 20.
(**3**) 1986 p. 33.
(**4**) 1976 p. 57.
(**5**) 1996 p. 53.
(**6**) 1996 p. 52.
(**7**) 2014 dccc 7.
(**8**) 1990 p. 43.
(**9**) 1972 p. 70.
(**10**) 1980 p. 66.
(**11**) 1988 p. 52.
(**12**) 1985 p. 67.

**Tabl 2**

**Swyddogaethau Byrddau Iechyd Lleol**

| *Y swyddogaeth* |
|---|
| Adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 *(ôl-ofal)* |
| Adran 82 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006(**13**)*(cydweithredu rhwng cyrff GIG ac awdurdodau lleol)* |
| Adran 1 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 *(dyletswydd i hyrwyddo gwasanaeth iechyd)* |
| Adrannau 2 a 3 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 *(pwerau i ddarparu gwasanaethau iechyd)*, gan gynnwys gwasanaethau adsefydlu a gwasanaethau sydd â'r bwriad o osgoi derbyn pobl i'r ysbyty ond gan eithrio llawdriniaethau, radiotherapi, terfynu beichiogrwydd, endosgopi, defnyddio triniaethau laser Dosbarth 4 a thriniaethau mewnwthiol eraill a gwasanaethau ambiwlans brys |
| Adran 10(1), (2), (3), (4) a (5) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 *(trefniadau gyda chyrff eraill)* |
| Adran 38(6) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 *(dyletswydd i roi ar gael wasanaethau a ddarperir gan berson a gyflogir yn y gwasanaeth iechyd er mwyn galluogi awdurdodau lleol i gyflawni swyddogaethau)* |

(**13**) 2006 p. 43.